CYNGOR CAERDYDD
CARDIFF COUNCIL

# POLISI ENW STRYDOEDD
# STREET NAMING POLICY

MAI 2019
MAY 2019

**CYNNWYS**


**1 Cyflwyniad .......................................................................................... 2**

1.1 Datganiad Polisi ........................................................................... 2

1.2 Ystyriaethau'r Gymraeg ............................................................... 2

1.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ........................................ 3

1.4 Pwysigrwydd Enwi a Rhifo Strydoedd ......................................... 3

1.5 Pwy sydd yn gyfrifol am Enwi a Rhifo Strydoedd? ........................... 4

**2 Enwi a Rhifo Strydoedd – Canllaw i Ymgeiswyr ..................................... 5**

2.1 Pryd dylid Gwneud Cais .................................................................. 5

2.2 Sut mae Gwneud Cais a Chostau .................................................. 5

**3 Enwi a Rhifo Strydoedd ar gyfer Datblygiadau Newydd ........................ 6**

3.1 Egwyddor Gyffredinol .................................................................... 6

3.2 Defnyddio Teitlau Marchnata Answyddogol .................................... 6

3.3 Themâu Arfaethedig ....................................................................... 6

**4 Cymeradwyo Cynlluniau Enwi a Rhifo Strydoedd .................................. 8**

4.1 Enwau Strydoedd .......................................................................... 8

4.2 Trefn Rhifo Eiddo .......................................................................... 11

4.3 Canolfannau Siopa, Parciau Manwerthu ac Ystadau Diwydiannol ........... 11

4.4 Cychwyn Cyfeiriadau Newydd ......................................................... 12

4.5 Ychwanegu Enw i Eiddo Sydd Eisoes â Rhif ...................................... 12

4.6 Ailenwi Eiddo Sydd Eisoes ag Enw ................................................... 12

4.7 Addasu Adeilad sy'n Sefyll yn Barod ................................................ 13

4.8 Ailenwi Strydoedd .......................................................................... 13

4.9 Ail-rifo eiddo/adeiladau sy'n sefyll yn barod neu ailenwi stryd .................. 13

4.10 Hysbysiadau Gwybodaeth Cyfeiriad i Bartneriaid Mewnol ac Allanol .... 14

**5 Cyngor Caerdydd – Y Rhestr Gyfeiriadau Gorfforaethol .................... 15**


**Atodiadau**


**1 Map Ffiniau Canol y Ddinas a'r Bae ....................................................... 16**

**2 Atodiad 2 Map Proses Enwi a Rhifo Strydoedd……………………………. 17**

## 1 Cyflwyniad

### 1.1 Datganiad Polisi

1.1.1. Nod y ddogfen hon yw cynnig cyngor ac arweiniad i ddatblygwyr a rhai sydd eisoes yn berchnogion ar eiddo ynghylch polisi Enwi a Rhifo Strydoedd Cyngor Caerdydd (“Y Cyngor”).

1.1.2. Mae enwi a rhifo strydoedd ac eiddo yng Nghaerdydd wedi ei reoli gan y Cyngor dan ddarpariaethau Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925 – Adrannau 17 i 19 (Enwi Strydoedd a Newid a Dangos Enwau Strydoedd).

1.1.3. Diben y rheolaeth hon yw sicrhau bod dyrannu enwau a/neu rifau strydoedd ac eiddo newydd neu ddiwygio enwau a rhifau, yn rhesymegol ac yn cael ei wneud mewn modd cyson.

1.1.4 Mae gan enwau a rhifau strydoedd nifer o swyddogaethau pwysig, er enghraifft, dod o hyd i lefydd, dosbarthu’r post yn effeithiol a sicrhau bod y gwasanaethau brys yn gallu dod o hyd i eiddo yn gyflym.

1.1.5 Mae enwi strydoedd hefyd yn rhan allweddol o greu lle, ac mae’n bwysig yng nghyd-destun ymrwymiad y Cyngor i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, Safonau’r Gymraeg a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

1.1.6 Yn hanesyddol mae’r Cyngor wedi gweithredu’r safonau canlynol parthed enwi strydoedd:

- Yng nghanol y ddinas, llwybrau craidd i ganol y ddinas ac ardal Bae Caerdydd (gweler Atodiad 1 Map Ffiniau), mae enwi strydoedd yn ddwyieithog gyda’r Gymraeg a’r Saesneg ar arwyddion enwau strydoedd. Mae cynsail hanesyddol dros yr ymagwedd yma a’r egwyddor arweiniol yw bod y strydoedd hyn yn strydoedd a rennir, o’u cymharu â strydoedd preswyl yn unig y ddinas. Mae hyn yn cynnal cysondeb â mannau cyhoeddus a rennir eraill sydd dan reolaeth y Cyngor megis parciau ac adeiladau cyhoeddus ac mae’n galluogi trigolion i fynd a dod ar hyd strydoedd y ddinas yn eu dewis iaith.
- Y tu allan i’r ardal yma, does dim rheidrwydd i enwau strydoedd sy’n bod eisoes i fod yn ddwyieithog.

1.1.7 Mae ymrwymiad ar y Cyngor i sicrhau ei fod yn gweithio tuag at nifer cyfartal rhwng nifer y strydoedd ag enwau Cymraeg a’r nifer sydd ag enwau Saesneg ar draws y ddinas. Caiff enwau strydoedd eu moitro.

### 1.2 Ystyriaethau’r Gymraeg

1.2.1. Gan fod gan y Cyngor hawl i bennu enwau strydoedd newydd, mae’n cydnabod pwysigrwydd ystyried y farn leol. Y polisi parthed enwau strydoedd newydd felly fydd mabwysiadu enw Cymraeg sydd yn gyson â threftadaeth a hanes yr ardal. Bydd hyn yn dileu’r problemau o ran cyfieithiadau o’r Saesneg i’r Gymraeg ar enwau strydoedd. Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio arbenigedd academaidd

allanol Panel Enwau Llefydd/Strydoedd Caerdydd Ddwyieithog wrth bennu enwau newydd. Bydd angen pennu enwau yn unol â gweithdrefnau llywodraethiant y Cyngor. Mewn amgylchiadau eithriadol gellid ystyried enwau strydoedd mewn ieithoedd eraill, lle byddai enw stryd yn amlwg yn adlewyrchu ac yn gydnaws â chysylltiadau hanesyddol, diwylliannol ac ieithyddol penodol yn lleol ac yn dilyn ymgynghori â'r Panel Enwi Strydoedd a chymunedau/rhanddeiliaid lleol.

1.2.2. Ac eithrio'r enwau a ystyrir yn 'ddwyieithog' gan y Cyngor o dan 1.1.6, ni fydd unrhyw newid i enwau strydoedd sydd eisoes yn bodoli a bydd y rhain yn aros yn yr iaith 'wybyddus' er mwyn osgoi problemau.

1.2.3. Mae gan y Cyngor gyfrifoldebau statudol a grymoedd i gynnal rhestrau cywir a chyfredol o enwau trefi, pentrefi, cymunedau a wardiau yn ogystal â datblygiadau newydd. Ym mhob achos, bydd y Cyngor yn sicrhau bod y rhestrau o safon uchel a bydd yn cynnal arolwg o'r rhestr y mae'n ei chynnal er mwyn sicrhau cysondeb lle bo'n angenrheidiol. Yn ychwanegol at hynny, mae cyfrifoldeb ar Gomisiynydd y Gymraeg dros safoni enwau lleoedd Cymraeg. Mae dogfennau defnyddiol yn cynnwys Rhestr o Enwau Llefydd Safonol Cymru a Canllawiau Safoni Enwau Llefydd, y ddau wedi eu cyhoeddi ar Gwefan.

1.2.4 Bydd unrhyw arwyddion enw stryd yn dangos y Gymraeg uwch law'r Saesneg pan fo angen adnewyddu arwydd neu angen arwydd newydd.

**1.3 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

1.3.1. Pwrpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gosod saith nod llesiant cenedlaethol, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Bydd sicrhau bod enwi strydoedd yng Nghaerdydd yn adlewyrchu treftadaeth leol, gydag enwau ar gyfer datblygiadau newydd sydd â chysylltiad o ran hanes, diwylliant ac iaith, yn chwarae rhan bwysig yn cyflawni'r nod llesiant hwn.

**1.4 Pwysigrwydd Enwi a Rhifo Strydoedd**

1.4.1. Mae enwi a rhifo strydoedd yn galluogi hunaniaeth unigryw i gael ei phriodoli i stryd ac yn sgil hynny unrhyw eiddo cysylltiedig y gellir mynd iddo o'r stryd honno.

1.4.2. Mae cofrestru eiddo yn dod yn fater cynyddol bwysig. Mae cynnal safon uchel, gyson a chynhwysfawr ar gyfer enwi a rhifo strydoedd neu enwi eiddo yn hanfodol oherwydd ei fod yn galluogi:

• Y Gwasanaethau Brys i ddod o hyd i eiddo yn gyflym – gall oedi beryglu bywyd a chostio arian

• Dosbarthu'r post yn effeithiol

• Ymwelwyr i ddod o hyd i'w cyrchfan

• Cyflenwi dibynadwy o ran gwasanaethau a chynnyrch

• Cadw cofnodion darparwyr gwasanaeth mewn modd effeithiol

• Cwmnïau i dderbyn cyfeiriad at ddibenion swyddogol wrth ddarparu gwasanaethau telathrebu, yswiriant, bancio, graddio credyd ac yn y blaen.

1.4.3 Dylid cyfeirio at Bolisi KP5 y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl): Dylunio Cynaliadwy o Ansawdd, sydd yn amlinellu'r gofynion ar ddatblygiadau newydd o ran bod yn ddarllenadwy ac o greu lle, er mwyn sicrhau eu bod yn "gwneud cyfraniad cadarnhaol i greu cymunedau, llefydd a gofodau arbennig" (CDLl 2006 – 2026, t.64). Mae Canllaw Dylunio Preswyl CCA (Ionawr 2017) hefyd yn manylu ar y materion y dylai dyluniad ar gyfer datblygiad preswyl newydd yng Nghaerdydd fynd i'r afael a nhw wrth geisio caniatâd cynllunio.

**1.5 Pwy sydd yn gyfrifol am Enwi a Rhifo Strydoedd?**

1.5.1. Mae cyfrifoldeb a grymoedd statudol ar y Cyngor, o fewn cyd-destun deddfwriaeth fabwysiadol, dros enwi a rhifo strydoedd, diwygio enwau strydoedd a dangos enwau strydoedd. Mae grymoedd yn ôl disgresiwn gan y Cyngor hefyd i roi rhif neu enw ar eiddo.

1.5.2. Dylid nodi nad oes cyfrifoldebau statudol gan y Post Brenhinol na grymoedd chwaith un ai i enwi stryd neu i enwi, rhifo, ailenwi neu ail-rifo eiddo.

1.5.3. Yr unig gyfrifoldeb sydd gan y Post Brenhinol yw dyroddi cod post yn dilyn cydgysylltu a derbyn hysbysiad ynghylch manylion cyfeiriad newydd neu ddiwygiedig gan y Cyngor.

1.5.4. Fel yr awdurdod enwi a rhifo statudol mae'r Cyngor yn gwneud gwiriadau priodol gyda'r Rhestr Gyfeiriadau Gorfforaethol ac ymgynghori'n ehangach a chydgysylltu â'r Post Brenhinol sydd yn gyfrifol am y Ffeil Cyfeiriad Cod Post (FfCCP) parthed eiddo newydd a/neu enwau strydoedd. Mae hyn yn lleihau dyblygu a dryswch ac yn sicrhau y caiff ymagwedd gyson a diamwys ei mabwysiadu ar draws Caerdydd.

1.5.5 Ar dderbyn cais i enwi stryd, yn dilyn cyngor gan y Panel Enwi Strydoedd fe ymgynghorir â'r Post Brenhinol a'r aelod cabinet sy'n gyfrifol am y portffolio hwn, ynghyd â'r hol aelodau ward a'r cynghorau cymuned, lle bo'n briodol. Am ragor o fanylion, ewch i Atodiad 2 (Map Proses Enwi a Rhifo Strydoedd).
Caiff unrhyw benderfyniadau parthed ceisiadau enwi strydoedd eu gwneud yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Cyngor. Os codir pryderon ynghylch enw stryd arfaethedig yn cael ei wrthod, bydd y swyddog sydd â'r awdurdod dirprwyol yn gweithio gyda'r partïon perthnasol a'r aelod cabinet i ganfod enw amgen. Os na fydd yn bosibl dod i gytundeb, mae'n bosib y caiff y mater ei gyfeirio i'r Cabinet.

## 2 Enwi a Rhifo Strydoedd – Canllaw i Ymgeiswyr

### 2.1 Pryd dylid Gwneud Cais

2.1.1. Y rhai ddylai wneud ceisiadau ar gyfer gwasanaethau Enwi a Rhifo Strydoedd yw:

- Unigolion neu sefydliadau sydd yn dymuno ychwanegu enw i eiddo â rhif yn unig sydd eisoes yn bod
- Unigolion neu sefydliadau sydd yn dymuno ailenwi eiddo ag enw sydd eisoes yn bod
- Unigolion neu ddatblygwyr yn codi eiddo newydd sydd yn cynnwys eiddo preswyl, safleoedd masnachol, unedau diwydiannol a'u tebyg
- Unigolion neu ddatblygwyr sydd yn dymuno diwygio gosodiadau datblygiadau newydd sydd eisoes wedi mynd drwy'r broses enwi a rhifo ffurfiol
- Unigolion neu ddatblygwyr sydd yn ymgymryd ag addasu eiddo sydd eisoes yn bod a fydd yn arwain at greu eiddo preswyl newydd neu safleoedd busnes. Bydd hyn yn cynnwys adeiladau sydd eisoes yn bod sydd yn cael eu rhannu'n fflatiau neu'n swyddfeydd, ydlannau sy'n cael eu trosi'n breswylfeydd a hollti unedau masnachol.
- Preswylwyr sydd yn dymuno ailenwi stryd
- Unigolion a busnesau sydd yn ceisio cadarnhad o gyfeiriad.

2.1.2. Dylai ymgeiswyr ymgynghori â'r Cyngor ar y cyfle cyntaf er mwyn osgoi oedi posib. Dylid cyflwyno ceisiadau cyn gynted ag y bo modd wedi cymeradwyo caniatâd cynllunio a/neu reoliadau adeiladu yn ffurfiol.

### 2.2. Sut mae Gwneud Cais a Chostau

2.2.1 Dylid gwneud ceisiadau ar-lein yma https://priffyrddcaerdydd.startraqdome.com/login/new. Bydd gofyn i ymgeiswyr gofrestru ar y system ac yna dewis 'Enwi a Rhifo Strydoedd' o'r rhestr ar y gwymplen.

2.2.2. Rhaid i bob cais am wasanaethau Enwi a Rhifo Strydoedd gynnwys cynllun lleoliad o raddfa briodol (i raddfa heb fod yn llai na 1:1250) ac yn achos datblygiadau newydd, cynllun gosodiad yn dangos rhifau plotiau a safle'r eiddo parthed y nodweddion daearyddol o'i gwmpas.

2.2.3 Mae'r costau ar gyfer gwasanaethau Enwi a Rhifo Strydoedd wedi eu seilio ar nifer y strydoedd, blociau, unedau a lloriau yn y datblygiad. Ar gyfer y ffioedd priodol, gweler Enwi a Rhifo Strydoedd.

## 3 Enwi a Rhifo Strydoedd ar gyfer Datblygiadau Newydd

### 3.1 Egwyddor Gyffredinol

3.1.1. Mae cefndir hanesyddol sylweddol gan Gaerdydd ac felly er mwyn sicrhau y caiff y dreftadaeth hon ei chadw, rhoddir ffafriaeth i gynlluniau enwi sydd â chyd-destun hanesyddol a lleol. Mae gan y Cyngor banel enwi gydag arbenigedd allanol er mwyn hwyluso, cynghori ac awgrymu dewisiadau ar gyfer pob mater sy'n ymwneud ag enwi ar ddatblygiadau newydd (gweler hefyd 1.2.1). Dylid cyfeirio hefyd at adnoddau priodol megis Enwau Llefydd Hanesyddol,

3.1.2. Os na ellir sefydlu cysylltiad hanesyddol uniongyrchol â'r tir i'w ddatblygu yna gellir edrych ar ardaloedd gerllaw am syniadau.

3.1.3. Os na ellir pennu unrhyw gyd-destun hanesyddol neu leol, a bod y datblygiad arfaethedig yn cynnwys rhwydwaith o strydoedd neu adeiladau, gellir awgrymu thema. Unwaith eto, dylid cymryd gofal er mwyn sicrhau y bydd unrhyw thema arfaethedig yn cyflawni'r protocolau sydd yn y ddogfen hon.

### 3.2 Defnyddio Enwau Marchnata Answyddogol

3.2.1. Er mwyn sicrhau bod enwi yn adlewyrchu'r dreftadaeth hanesyddol, ddiwylliannol ac ieithyddol yn lleol, bydd y Cyngor yn annog datblygwyr i ymgynghori â chymunedau lleol ar adeg gynnar yn y broses ddatblygu. Pan gaiff enwi ei ystyried fel cam cynnar, efallai na fydd yn briodol defnyddio teitlau marchnata answyddogol.

3.2.2. Ni chaniateir mabwysiadu teitlau 'marchnata' er mwyn creu lleoliadau deniadol 'answyddogol' neu enwau ar bentrefi.

3.2.3. Cynghorir datblygwyr felly i fod yn ochelgar wrth ddefnyddio enwau datblygiadau i ddibenion marchnata os nad yw'r enw wedi ei gytuno ymlaen llaw.

3.2.4. Dylid hefyd gynnwys mewn llenyddiaeth a gaiff ei ddosbarthu i ddarpar brynwyr fod unrhyw enwau marchnata yn amodol ar gael eu cymeradwyo ac felly y gallent newid.

### 3.3. Themâu a Gaiff eu Cynnig

3.3.1. Dylai datblygwr sydd yn cynnig thema ar gyfer datblygiad newydd ystyried y canlynol:

- Dylai'r enw(au) stryd neu adeilad fod â chyd-destun hanesyddol neu leol a brofwyd ac â chysylltiad uniongyrchol â'r safle datblygu neu'r ardal gerllaw

- Gall enwi strydoedd neu adeiladau ar ôl unigolion penodol fod yn fater ychydig yn oddrychol. Y polisi felly fydd ond i gynnwys enw unigol neu enw

person, un ai yn y presennol neu'r gorffennol, mewn cynlluniau enwi a gymeradwywyd os gellir sefydlu cyswllt gwaddol neu hanesyddol

- Yr unig eithriad fydd mewn sefyllfaoedd lle y cyfeirir at leoliadau daearyddol hanesyddol fel enwau priod h.y. Parc Kimberley, Coed John ayb. Ni fydd y cynllun enwi eiddo neu strydoedd yr un fath neu'n debyg i unrhyw enwau sydd eisoes yn bodoli yng Nghaerdydd er mwyn osgoi dryswch posib

- Pan na ellir sefydlu unrhyw gyd-destun hanesyddol neu leol a bod rhwydwaith o strydoedd neu adeiladau i gael eu creu, gall y datblygwr gyflwyno awgrym o thema, gyda'r rhesymau priodol, i'w hystyried gan y Cyngor

- Dylid osgoi unrhyw enwau strydoedd neu adeiladau sy'n esthetaidd anaddas, er enghraifft Tŷ Hyll, Ffordd y Gwaith Nwy, cyfeiriadau at Dwll a Tomen/Domen ayb. Dylid osgoi enwau strydoedd neu adeiladau a gaiff eu hawgrymu y gellir eu camddehongli'n fwriadol, er enghraifft Heol Hwrdd, Rhodfa Feddw, Stryd y Cweiar ayb. Pan fo rhesymau hanesyddol cymhellol dros gadw neu gynnwys elfen o'r fath mewn enw stryd, rhaid sicrhau cytundeb ar ragoriaethau hyn trwy ymgynghori â'r panel enwi.

- Ni dderbynnir ar unrhyw gyfrif enwau a gaiff eu hawgrymu ar gyfer strydoedd neu adeiladau y gellid hystyried eu bod yn groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu eu dehongli yn dramgwyddus neu anllad.

- Os yw'n bosib, dylid osgoi enwau isradd (e.e. enwi rhes o adeiladau o fewn stryd sydd eisoes ag enw yn 'Teras.....').

## 4 Cymeradwyo Cynlluniau Enwi a Rhifo

### 4.1 Enwau Strydoedd

4.1.1. Dylai pob enw stryd newydd ddechrau gydag un o'r rhagddodiaid canlynol yn achos enwau Cymraeg (neu ôl-ddodiaid yn achos enwau Saesneg) yn y cyd-destun canlynol, fodd bynnag nid yw hon yn rhestr gyflawn ac mewn amgylchiadau eithriadol gellid caniatáu rhai gwahanol.

| Rhagddodiaid | Cyfieithiad Saesneg | Ystyr |
|---|---|---|
| Heol | Road | Ar gyfer unrhyw brif heol neu ffordd drwodd |
| Rhodfa / Coedlan | Avenue | Ar gyfer unrhyw heol neu ffordd drwodd |
| Rhodfa | Drive | Ar gyfer unrhyw heol neu ffordd drwodd |
| Stryd / Heol | Street | Ar gyfer unrhyw heol neu ffordd drwodd |
| Ffordd / Heol | Way | Ar gyfer unrhyw heol neu ffordd drwodd |
| Llwyn | Grove | Ar gyfer ffyrdd preswyl |
| Stablau | Mews | Ar gyfer ffyrdd preswyl |
| Plas / Maes | Place | Ar gyfer ffyrdd preswyl |
| Tai | Villas | Ar gyfer ffyrdd preswyl |
| Gerddi | Gardens | Ar gyfer ffyrdd preswyl (gyhyd nad oes dryswch gyda man agored lleol) |
| | Close | Ar gyfer ffordd bengaead yn unig |
| Cwrt / Llys | Court | Ar gyfer ffordd bengaead a blociau preswyl yn unig |
| Pen | End | Ar gyfer ffordd bengaead yn unig |
| Cylch | Circle | Ar gyfer ffyrdd sydd â'r un man cychwyn a gorffen |
| Cilgant | Crescent | Ar gyfer ffordd siâp cilgant |
| Sgwâr | Square | Ar gyfer sgwâr yn unig |
| Teras / Rhodfa | Terrace | Ar gyfer teras o dai |
| Bryn / Rhiw | Hill | Ar gyfer ffordd ar fryn yn unig |
| Crib | Ridge | Ar gyfer ffordd ar fryn yn unig |
| Rhiw / Tyle | Rise | Ar gyfer ffordd ar fryn yn unig |
| Rhes / Stryd | Row | Ar gyfer strydoedd preswyl mewn amgylchiadau priodol |
| Bro / Glyn | Vale | Ar gyfer strydoedd preswyl mewn amgylchiadau priodol |
| Golwg | View | Ar gyfer strydoedd preswyl mewn amgylchiadau priodol |
| Comin | Common | Ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |

| | | |
|---|---|---|
| Rhodfa | Parade | Ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Parc | Park | Ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Trem | Reach | Ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Lôn / Lôn Gefn | Lane | Ar gyfer unrhyw ffordd neu ffordd drwodd mewn ardal wledig (neu mewn amgylchiadau priodol) |
| Dôl | Meadow | Ar gyfer unrhyw ffordd neu ffordd drwodd mewn ardal wledig |
| Dôl | Mead | Fel dewis amgen i'r uchod |
| Coedlan / Glyn | Dene | Ar gyfer ffyrdd a chyswllt hanesyddol â dyffryn coediog |
| Glanfa | Wharf | Ar gyfer ffyrdd sy'n gyfochrog neu gerllaw dyfrffyrdd y gellir eu llywio |
| Cylchfan | Circus | Ar gyfer cylchfan fawr |
| Ffordd / Rhodfa | Walk | Ar gyfer llwybrau i gerddwyr |
| Llwybr | Path | Ar gyfer llwybrau i gerddwyr |
| Llwybr Troed | Footpath | Ar gyfer llwybrau i gerddwyr |
| Rhandy | Annexe | Ar gyfer datblygiad sengl |
| Pont | Bridge | Mewn amgylchiadau priodol |
| Ffordd Osgoi | Bypass | Ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Cornel | Corner | Ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Cwrs | Course | Ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Crib | Crest or Ridge | Ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Croesfan | Crossing | for roads in appropriate circumstance |
| Pant | Dale | for roads in appropriate circumstance |
| Ystâd | Estate | Mewn amgylchiadau priodol |
| Ffordd Gyflym | Expressway | Ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Cae | Field | Ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Gwastatir | Flats | Mewn amgylchiadau priodol |
| Rhyd | Ford | Ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Coed (or Coedwig) | Forest | Mewn amgylchiadau priodol |
| Gardd (or Gerddi) | Garden(s) | Mewn amgylchiadau priodol |
| Porth | Gateway or Port | Mewn amgylchiadau priodol |
| Lawnt (or Clwt) | Green | Mewn amgylchiadau priodol |
| Llwyn or Gelli | Grove | Mewn amgylchiadau priodol |

| | | |
|---|---|---|
| Harbwr | Harbour | Mewn amgylchiadau priodol |
| Trum | Heights | Mewn amgylchiadau priodol |
| Ynys | Isle or Island | Mewn amgylchiadau priodol |
| Cnwc | Knoll or Hillock | Mewn amgylchiadau priodol |
| Loc | Lock | Mewn amgylchiadau priodol |
| Porthordy (or Porthdy or Caban) | Lodge | Mewn amgylchiadau priodol |
| Maenor (Maenordy) | Manor | Mewn amgylchiadau priodol |
| Melin | Mill | Mewn amgylchiadau priodol |
| Mynydd | Mount | Mewn amgylchiadau priodol |
| Perllan | Orchard | Mewn amgylchiadau priodol |
| Trosffordd | Overpass | Mewn amgylchiadau priodol |
| Parcffordd | Parkway | Mewn amgylchiadau priodol |
| Tramwyfa | Passage | Mewn amgylchiadau priodol |
| Tyrpeg (or Tollborth) | Turnpike (or Pike) | Mewn amgylchiadau priodol |
| Pinwydd | Pines | Mewn amgylchiadau priodol |
| Trwyn (or Penrhyn) | Point or Peninsula | Mewn amgylchiadau priodol |
| Gorffwysfa | Rest | Mewn amgylchiadau priodol |
| Glan | Shore | Mewn amgylchiadau priodol |
| Ffynnon /Ffynhonnau | Well(s) | Mewn amgylchiadau priodol |
| Esgair | Spur (of hill/mountain) | Mewn amgylchiadau priodol |
| Copa | Summit | Mewn amgylchiadau priodol |
| Tanffordd | Underpass | Mewn amgylchiadau priodol |
| Traphont | Viaduct | Mewn amgylchiadau priodol |
| Golygfa | Vista | Mewn amgylchiadau priodol |
| Golwg (or Trem) | View | Mewn amgylchiadau priodol |
| Ffrwd | Spring(s) | Mewn amgylchiadau priodol |
| Allt | Hill (large wooded hill) | Mewn amgylchiadau priodol |
| Rhos | Moor; Heath | Mewn amgylchiadau priodol |
| Sŵn | Sound(s) or Chime | Mewn amgylchiadau priodol |
| Basn | Basin | Mewn amgylchiadau priodol |
| Capel | Chapel | Mewn amgylchiadau priodol |
| Arglawdd or Torlan | Embankment or Bank (of River) | Mewn amgylchiadau priodol |
| Morfa or Cors | Salt marsh or inland marsh | Mewn amgylchiadau priodol |
| Gwastadeddau | Levels | Mewn amgylchiadau priodol |

4.1.2. Nid yw defnyddio Gogledd, De, Dwyrain neu Gorllewin fel rhagddodiad fel rheol yn dderbyniol. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall fod yn briodol gwneud hynny mewn amgylchiadau eithriadol er mwyn hwyluso adnabod.

## 4.2 Trefn Rhifo Eiddo

4.2.1. Defnyddir y protocolau canlynol gyda chynlluniau datblygu newydd:

- Caiff ffyrdd pengaead byr a datblygiadau bychan eu rhifo'n olynol gan ddilyn cyfeiriad y cloc. Caiff datblygiad ffyrdd pengaead hwy unwaith eto eu rhifo gyda'r eiddo odrif eiddo eu dyrannu i'ch ochr chwith a'r eiddo eilrif i'r dde.

- Lle nad oes trefn rhifo stryd yn bodoli, mewn ardaloedd gwledig yn bennaf, bydd yn briodol dyrannu enwau eiddo a gytunir. Serch hynny, bydd pob enw eiddo a gymeradwywyd yn derbyn cyfeiriad y stryd ddynodedig agosaf er mwyn galluogi'r gwasanaethau brys i ddod o hyd i eiddo yn gyflym

- Bydd datblygiadau mewn-lenwi (eiddo newydd a gaiff eu codi rhwng eiddo sy'n bodoli eisoes neu ar dir eiddo sy'n bodoli eisoes) ar stryd sydd wedi ei rifo yn derbyn yr un rhif tŷ â'r eiddo sy'n dod o flaen yr eiddo mewn-lenwi gyda'r rhif wedi ei ddilyn gan olddodiad 'A', 'B'. Er enghraifft 24A, 24B ayb

- Caiff eiddo, yn enwedig eiddo ar safle sydd ar gornel, yn cael eu rhifo neu eu henwi yn unol â'r stryd lle cyrchir ac y lleolir prif fynedfa'r eiddo. Ni chaniateir camddefnyddio enwau neu rifau eiddo er mwyn sicrhau cyfeiriad mwy mawreddog neu i osgoi cyfeiriad y tybir fod iddo gysylltiadau annymunol

- Gall blociau fflatiau gael enw ond bydd pob fflat unigol yn cael eu rhifo'n olynol. Gall y panel enwi gynghori ar enwi o fewn datblygiadau

- Dylid enwi neu rifo pob eiddo masnachol ac eithrio mewn amgylchiadau os mai enw'r busnes neu sefydliad yw'r unig fodd o adnabod yr eiddo.

## 4.3 Canolfannau Siopa, Parciau Manwerthu ac Ystadau Diwydiannol

4.3.1. Er mwyn lleihau dryswch, bydd cyfeiriad pob eiddo masnachol yn gyfeiriad cynaliadwy y gellir ei ail-ddefnyddio, waeth beth yw'r busnes neu'r sefydliad sy'n meddiannu'r eiddo. Caiff rhifau uned priodol eu dyrannu a fydd yn aros yn gyson hyd yn oed pe digwydd i'r busnes sy'n meddiannu'r eiddo newid. Dylid dangos rhif yr uned yn amlwg ar bob adeilad.

4.3.2. Canolfannau Siopa, Arcedau neu Rodfeydd:

Caiff enw ei gytuno a bydd gofyn i bob siop neu uned o'i fewn gael ei rif unigol ei hun. Defnyddir y stryd lle pennir y ceir prif fynedfa'r adeilad fel stryd y cyfeiriad swyddogol. Caiff pwyntiau mynediad amgen eu cofnodi yn Rhestr Gyfeiriadau Gorfforaethol y Cyngor a'u darparu i bartneriaid rhanddeiliol mewnol ac allanol.

4.3.3. Parciau Manwerthu a Chanolfannau Siopa Awyr Agored:

Caiff enw ei gytuno â'r Cyngor ar gyfer y parc neu'r ganolfan siopa. Bydd y protocolau fel y diffinnir hwy uchod. Er enghraifft: Uned A, Sgwâr James, Trelái.

4.3.4. Ystadau Diwydiannol:

Lle bo'n briodol caiff enw ei roi ar ystâd ddiwydiannol. Bydd gofyn i bob uned neu iard gael rhif unigryw. Bydd y protocolau uchod yn berthnasol.

4.3.5. Os yw'r ganolfan siopa, arcêd, rhodfa neu Barc Manwerthu yn cynnwys mwy nag un stryd ag enw swyddogol, ac y pennwyd bod angen i'r strydoedd hyn gael enwau priodol, caiff yr eiddo eu rhifo yn unol â'r stryd lle ceir mynediad iddynt. Felly caiff lleoliad cymeradwy ei ddyrannu i gynorthwyo adnabod.

4.3.6. Dylid nodi fod enwau ar gyfer Canolfannau Siopa, Parciau Manwerthu ac Ystadau Diwydiannol ayb yn amodol ar yr un egwyddorion â'r rhai a amlinellir ar gyfer enwau strydoedd ac adeiladau sydd wedi eu gosod ger bron yn adrannau 2 a 3. Argymhellir cysylltu a'r tîm Enwi a Rhifo Strydoedd ar y cyfle datblygu cyntaf posib fel y gellir cytuno ar gynlluniau enwi a rhifo o'r dechrau'n deg.

### 4.4 Cychwyn Cyfeiriadau Newydd

4.4.1. Pan fo datblygiad newydd wedi ei gymeradwyo, caiff cyfeiriadau eu creu gan y Cyngor fel endidau 'dros dro'. Caiff manylion y datblygiad arfaethedig eu rhannu â'r Post Brenhinol a fydd wedyn yn 'cadw a chofnodi' y cyfeiriadau ar eu cronfa ddata 'Heb Eu Codi Eto'. Er mwyn osgoi problemau gyrru post at eiddo nad sy'n bodoli, nid yw'r cyfeiriadau hyn yn mynd yn fyw tan i'r eiddo gael ei feddiannu neu hyd nes y byddont bron â chael eu cwblhau ac felly yn gallu derbyn gwasanaethau post.

4.4.2. Wrth i bob eiddo ddynesu at gael ei gwblhau bydd gofyn i'r datblygwr hysbysu'r Post Brenhinol er mwyn sicrhau fod y cofnodion priodol yn cael eu symud o'u cronfa ddata 'Heb Eu Codi Eto' i'r Ffeil Cyfeiriad Cod Post (FfCCP) gan ei wneud ar gael i'w ddefnyddio'n gyffredinol ac i gyfeirio ato drwy'r Deyrnas Gyfunol.

### 4.5 Ychwanegu Enw i Eiddo Sydd Eisoes â Rhif

4.5.1. Gellir caniatáu dyrannu enw eiddo os oes cynllun rhifo eisoes ar waith. Bydd yr enw yn ychwanegol at y rhif ac nid yn ei le. Ni ddylai'r enw fod yn cael ei ddefnyddio gan eiddo arall, na swnio'n rhy debyg i unrhyw enw eiddo arall, yn yr ardal. Ar dderbyn y cais, caiff gwiriad manwl ei wneud er mwyn osgoi dyblygu ac ni chaiff enwau y gellid eu hystyried yn dramgwyddus, yn wahaniaethol neu anllad, neu'n agored i gael eu camddehongli, eu derbyn.

### 4.6 Ailenwi Eiddo Sydd Eisoes Ag Enw

4.6.1. Gellir newid enw eiddo sydd eisoes ag enw. Ni ddylai'r enw arfaethedig fod yn cael ei ddefnyddio gan eiddo arall, na swnio'n rhy debyg i unrhyw enw eiddo arall, yn yr ardal. Ar dderbyn y cais, caiff gwiriad manwl ei wneud er mwyn osgoi

dyblygu ac ni chaiff enwau y gellid eu hystyried yn dramgwyddus, yn wahaniaethol neu anllad, neu'n agored i gael eu camddehongli, eu derbyn. Lle bo arwyddocâd hanesyddol neu ieithyddol penodol i enwau sydd yn bod eisoes, ni fydd ailenwi'n cael ei gefnogi. Mae canllawiau pellach ar gael yn yr atodlen i'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol.

### 4.7 Addasu Adeilad sy'n Sefyll Eisoes

4.7.1. Bydd addasu neu rannu eiddo preswyl sy'n arwain at un pwynt mynediad ar gyfer cyrchu'r holl fflatiau eu rhifo, yn hytrach na'u disgrifio neu dadogi llythyren arnynt. Er enghraifft, Fflat 1 yn hytrach na Fflat Llawr Cyntaf neu Fflat A.

4.7.2. Bydd eiddo a gaiff ei gyfuno yn defnyddio rhifau'r eiddo gwreiddiol pan ddefnyddir rhifau eiddo. Er enghraifft, cyfuno dau eiddo yn 4 Stryd Fawr a 6 Stryd Fawr neu Uned 1 Ystâd Masnachu ac Uned 2 Ystâd Masnachu yn ôl eu tro.

### 4.8 Ailenwi Strydoedd

4.8.1. Mae addasu enw stryd yng Nghaerdydd yn cael ei wneud o fewn darpariaethau Deddf iechyd y cyhoedd 1925, Adran 118 – Addasu enw stryd.

4.8.2. Trwy orchymyn gall y Cyngor newid enw unrhyw stryd, neu ran o stryd, neu aseinio enw i unrhyw stryd, neu ran o stryd, nad yw wedi derbyn enw.

4.8.3. Os digwydd bod angen newid enw stryd sydd eisoes yn bod neu y rhoddir enw ar stryd nad yw wedi derbyn enw yn y gorffennol, yna ymgynghorir â'r preswylwyr presennol.

4.8.4. Pan fo preswylwyr yn gwneud cais i enwi neu ailenwi stryd sydd eisoes yn bod a phan fo dau draean o'r preswylwyr yn gytûn, gellir gwneud cais i newid enw stryd. Bydd angen i'r cais nodi rhesymau penodol parthed y cais a fydd yn cynnwys y dewis enw newydd. Rhaid i'r enw newydd lynu at yr egwyddorion sydd wedi eu nodi yn y polisi hwn.

### 4.9 Ail-rifo eiddo/adeiladau sy'n bodoli'n barod neu ailenwi stryd

4.9.1. Caiff ail-rifo eiddo neu fwy nag un eiddo ei ystyried pan fo newidiadau sydd yn (neu sydd yn debygol o arwain at) greu problemau o ran dosbarthu gwasanaethau neu faterion a nodwyd gan y gwasanaethau brys. Gall y broses gymryd llawer o amser ac arwain at gost ychwanegol, tarfu neu anghyfleustra i feddianwyr unigol, ac felly dylid ei osgoi lle bynnag y bo modd.

4.9.2. Ar gyfer datblygiadau newydd mewn strydoedd sydd yn bod eisoes mae'n well defnyddio rhagddodiaid, neu ail-rifo ambell eiddo yn unig yn well nag ail-rifo stryd gyfan. Ond, nid yw hyn wastad yn bosib a bydd ailenwi ac ail-rifo strydoedd yn ôl disgresiwn y Cyngor.

### 4.10 Hysbysiadau o Wybodaeth ar Newid Cyfeiriad i Bartneriaid Mewnol ac Allanol

4.10.1 Ar gwblhau cais Enwi a Rhifo Stryd, bydd y Cyngor yn cynnwys y partneriaid canlynol fel rhan o’r broses hysbysu ffurfiol. Nid rhestr ddihysbydd mohoni a gellir ychwanegu partneriaid ychwanegol yn ôl yr angen.

- Pob Gwasanaeth Mewnol yn y Cyngor
- Heddlu De Cymru
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- GIG Cymru
- Arolwg Ordnans
- Post Brenhinol
- Asiantaeth y Swyddfa Brisio
- Y Gofrestrfa Tir
- Dŵr Cymru
- Severn Trent
- Y Rhestr Tir ac Eiddo Cenedlaethol
- Gwasanaethau Etholiadol
- Open Reach
- Cyfleustodau
- Western Power.

**5 Rhestr Gyfeiriadau Gorfforaethol Cyngor Caerdydd**

5.1.1. Mae dwy brif ffynhonnell ar gyfer gwybodaeth am gyfeiriadau yn cael eu defnyddio ledled y DG.

5.1.2. Fel awdurdod lleol, mae gofyn i'r Cyngor reoli a chynnal Rhestr gyfeiriadau a Strydoedd Corfforaethol gyda diweddariadau cyson yn cael eu darparu i hyb canolog y Rhestr Gyfeiriadau a Strydoedd Cenedlaethol.

5.1.3. Y Rhestrau Cyfeiriadau a Strydoedd Corfforaethol, a gaiff eu rheoli a'u cynnal gan yr holl awdurdodau lleol ac unedig ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, yw conglfeini datblygiad parhaus a chyflawniad y rhaglen seilwaith cyfeiriadau cenedlaethol ar gyfer Gwledydd Prydain.

5.1.4. Caiff y Rhestr Cyfeiriadau a Strydoedd Cenedlaethol eu rheoli gan GeoPlace (partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sector cyhoeddus rhwng y Gymdeithas Llywodraeth Leol a'r Arolwg Ordnans) gan ddarparu data pendant a chyfredol ar gyfeiriadau gofodol a strydoedd sy'n eiddo cyhoeddus.

5.1.5. Caiff y Rhestrau Cenedlaethol eu cydnabod yn gydrannau allweddol ar gyfer datblygu cofrestr gynhwysfawr o gyfeiriadau a gwybodaeth stryd cywir ar gyfer y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Mae'r Rhestrau Corfforaethol yn cydymffurfio â Safon Brydeinig BS7666 – Setiau Data Gofodol ar gyfer Cyfeiriadu Daearyddol Rhan 1 a 2 a Chanllawiau Confensiwn Mewnbynnu Data Cenedlaethol fel y cytunwyd gan yr awdurdodau cynnal dynodedig.

5.1.7. Gall y cyfeiriadau sydd wedi eu cynnwys yn y Rhestr Gyfeiriadau Gorfforaethol fod yn wahanol i'r rhai a ddelir gan y Post Brenhinol gan fod gofyn iddynt fod yn sail i ofynion ac anghenion busnes gwahanol.


5.1.8. Mae ffeil cyfeiriadau cod post (FfCCP) y Post Brenhinol wedi ei chreu'n benodol i gynorthwyo cyflawni gwasanaethau cyflenwi'r post ac nid yw'r Post brenhinol yn derbyn cyfrifoldeb nac atebolrwydd ar ddefnyddio'r FfCCP i unrhyw ddiben arall neu ddiben a fwriedir ac eithrio er mwyn cyflenwi'r gwasanaethau hynny.

5.1.9. Bwriad y Rhestr Gyfeiriadau Gorfforaethol yw hwyluso cyflenwi cywir ar yr holl wasanaethau ac mae wedi ei seilio ar leoliad daearyddol gwirioneddol yr eiddo ond mae hefyd yn cynnwys y dref bost fel ag a ddefnyddir gan y Post Brenhinol.

5.1.10. Ar ben hynny, mae'r Rhestr Gyfeiriadau Gorfforaethol yn cynnwys gwrthrychau eraill nad oes a wnelont â'r post megis tir datblygu ac amaethyddol, coetiroedd, parciau, eglwysi, cyfleusterau cyhoeddus, i enwi ond rhai ohonynt nad sydd wedi eu cynnwys o fewn y FfCCP.

5.1.11. Rhestr Gyfeiriadau Gorfforaethol y Cyngor yw'r brif gofrestr o gyfeiriadau a ddefnyddir gan wasanaethau'r Cyngor.

## Atodiad 1 – Ffiniau Canol y Ddinas a'r Bae



**Atodiad 2 Map Proses Enwi a Rhifo Strydoedd**

1. Cofrestrwch ar gyfer system ar-lein Priffyrdd Caerdydd: https://cardiffhighways.startraqdome.com/login/new

2. Cyflwynwch gais ar-lein ar gyfer:

- Creu enw(au) stryd newydd
- Datblygiad newydd / Cyfeiriad(au) newydd
- Enw(au) a/neu rifau eiddo newydd
- Diwygiad i osodiad datblygiad
- Ailenwi stryd bresennol ar gais y preswylwyr
- Newidiadau i eiddo presennol
- Ailenwi a/neu ailrifo eiddo presennol
- Cadarnhau cyfeiriad

3. Bydd ffioedd yn cael eu cadarnhau'n ysgrifenedig i'r ymgeisydd dros e-bost.

4. Pan dderbynnir taliad, gall y weithred Cyfeirnodi Stryd ddechrau.

5. Lle y bo'n briodol, dylid cynnal ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid a chymunedau lleol cyn gynted â phosib, yn unol â Pholisi Enwi Strydoedd y Cyngor.

6. Caiff ceisiadau sy'n cynnwys ffyrdd/strydoedd newydd eu hanfon at Banel Enwi Strydoedd/Lleoedd Cymraeg Caerdydd Ddwyieithog er mwyn derbyn cyngor ac awgrymiadau ymgynghorol.

7. Yn dilyn ymchwil briodol, caiff adborth gan y Panel ei basio i'r Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd a fydd yn ymgynghori â'r Post Brenhinol / yr Aelod Cabinet priodol / Aelodau Ward Lleol.

8. Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Post Brenhinol/Aelodau Ward Lleol/Cynghorau Cymuned, bydd yr enwau a'r rhifau'n cal cynllun llain a rhif.

9. Yn dilyn ymgynghori â'r Post Brenhinol / Aelodau Ward Lleol / Cynghorau Cymuned, bydd yr enwau a'r rhifau'n cal cynllun llain a rhif.

10. Bydd Adroddiad Awdurdodi'n cael ei gwblhau, gan ddyrannu'r enwau ffordd newydd yn swyddogol.

11. Ar ôl cael cymeradwyaeth a chod post gan y Post Brenhinol, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i randdeiliaid mewnol ac allanol.

12. Anfonir cadarnhad e-bost i’r ymgeisydd.

13. Caiff y cais ei gau.